**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

# TRETHI BUSNES: CANLYNIADAU'R ADOLYGIAD BLWYDDYN GYNTAF Y CYNLLUN TROSIANNOL RHYDDHAD RHAG TALU TRETHI (TRANSITIONAL RATE RELIEF SCHEME)

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn hysbysu'r Pwyllgor am ganlyniadau adolygiad blwyddyn gyntaf y cynllun trosiannol rhyddhad rhag talu trethi.

## Crynodeb

2. Yr ymateb cyffredinol i'r adolygiad oedd bod y cynllun wedi cyflawni'r amcanion a bennwyd yn glir gan Gabinet y Cynulliad. Nid oes unrhyw dystiolaeth glir fod y cynllun wedi cael effaith andwyol eang ar dwf busnes a'r rhagolygon creu swyddi i'r busnesau hynny nad ydynt yn gymwys i dderbyn y rhyddhad rhag talu trethi.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor yn nodi canlyniadau'r adolygiad.

## Cefndir

4. Yn dilyn ystyried papur LGH-04-00 (p7) gan y Pwyllgor ar 24 Mai 2000, ymgymrodd Peter Law â'r gwaith o adolygu'r cynllun rhyddhad trosiannol a gyflwynwyd yng Nghymru ar gyfer rhestr trethi 2000. Yn sgil yr ymrwymiad hwnnw, ysgrifennwyd at amrediad eang o sefydliadau yn ymwneud â maes llywodraeth leol, busnes a threthi ac ardrethu i ganfod eu barn ar sut roedd y cynllun wedi perfformio yn erbyn ei amcanion. Gwelir copi o'r llythyr yn Atodiad A.

## Ystyriaethau

5. Dim ond 10 ymateb a dderbyniwyd i'r llythyr. Daeth y mwyafrif o'r rhain oddi wrth lywodraeth leol. Ni chafwyd ymateb gan y prif sefydliadau busnes. Ceir crynodeb manwl o'r sylwadau yn Atodiad B.

6. O'r rhai a wnaeth sylwadau am eglurder a symlrwydd y cynllun, y consensws oedd fod y

cynllun yn gymharol hawdd i'r cynghorau i'w weinyddu ac i'r trethdalwyr ei ddeall.

7. Roedd pawb a gynigiodd sylwadau ar a yw'r cynllun yn diogelu busnesau bach yn teimlo bod y cynllun wedi cwrdd â'i amcanion. Dim ond un ymateb (oddi wrth Castellnedd Port Talbot) a fynegodd y safbwynt y dylid ystyried ymestyn y cynllun i'r holl fusnesau, ond nid tan ailbrisiad 2005.

8. O'r rhai a gynigiodd sylwadau ar a yw'r cynllun yn caniatáu i'r rhai sydd ar eu hennill gyrraedd eu harbedion yn fuan, dim ond un a gredai nad oedd (Cyngor Cymuned Llantilio Croesenni). Y feirniadaeth oedd na ddylai'r rhai sy'n cael cwtogiadau yn eu biliau orfod aros am dair blynedd cyn elwa'n llawn. Er hynny, mae'r cynllun yn welliant mawr ar ei ragflaenwyr yn y cyswllt yma (ac ar y cynllun sy'n weithredol yn Lloegr) lle nad oedd rhai o'r rhai ar eu hennill byth yn cael y budd llawn.

9. Roedd y cyfan o'r rhai a gyflwynodd sylwadau ar a yw'r cynllun yn gwella tegwch y system drethi yn cytuno'n gryf fod symud i gynllun â chyfyngiadau amser yn gam cadarnhaol i'r cyfeiriad cywir.

10. Roedd nifer o sylwadau cyffredinol yn amrywio o'r angen am ymgynghoriad llawnach ar gynlluniau trosiannol rhyddhau rhag talu trethi i fesurau tymor hir i warchod busnesau bach rhag biliau treth mawr. Rydym yn ymdrin â'r ddau fater hyn fel rhan o'n adolygiad ehangach ar gyllid llywodraeth leol.

**Themâu trawsbynciol**

11. O gofio bod y gwaith yma yn cyd-fynd ag amcanion datblygu economaidd y Cynulliad, anfonwyd copi o'r papur hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

**Pwynt Cyswllt**

12. Gwilym Evans, Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Estyniad 5013.